

## 2

## Gair gan y Pennaeth / Letter from the headteacher

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Ar derfyn tymor prysur arall hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Hoffwn hefyd longyfarch plant yr ysgol wnaeth gymryd rhan yng nghyngerdd y Sinfonia Gymreig ar y Campws Uwchradd a hefyd ym mherfformiad Stori'r Geni ar y Campws Cynradd. Cadarnhaodd y ddwy noson bod talentau anhygoel gan blant yr ysgol, a hefyd gan y staff a fu wrthi'n eu dysgu. Roedd safon y perfformio yn y ddau gyngerdd yma'n wych.

Bydd Mrs Catrin Jones Hughes yn ein gadael ddiwedd y tymor i fynd ar gyfnod mamolaeth a dymunwn yn dda iawn iddi hi a'r teulu. Hoffwn groesawu Mrs Jane Baraclough fydd yn dysgu Technoleg nes bydd Mrs Jones Hughes yn ôl yn ei gwaith.

Edrychwn ymlaen at groesawu'r plant newydd fydd yn dechrau yn y Cyfnod Sylfaen ym mis Ionawr. Bydd yr ysgol yn ailagor i blant ddydd Mercher 4 Ionawr 2017.

Tan hynny, dymunaf Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i bob un ohonoch.

**Dafydd M B Jones**  
Pennaeth  
Ysgol Bro Hyddgen

*Dear Parents /Carers*

*At the end of another busy term I would like to thank you for your continued support throughout the year. I would also like to congratulate the pupils who took part in the Welsh Sinfonia Concert on the Secondary Campus and the production of the Nativity Play on the Primary Campus. These two nights confirmed to me that we have very talented children and staff who gave up their time for rehearsals. The standard of performance in both these concerts was excellent.*

*Mrs Catrin Jones Hughes is leaving us to go on maternity leave at the end of term and I would like to wish her and her family well. I would also like to welcome Mrs Jane Baraclough who will be teaching Technology during Mrs Jones Hughes's absence.*

*I look forward to welcoming the new pupils who will be starting in the Foundation Phase in January. The school will be open for pupils on Wednesday 4 January 2017.*

*I hope you will all have a Merry Christmas and a Happy New Year.*

**Dafydd M B Jones**  
Headteacher  
Ysgol Bro Hyddgen

